**Pwyllgor Datblygu Economaidd EDC-12-99(minW)DRAFFT**

**COFNODION DRAFFT**

**Dyddiad:** 15 Rhagfyr, 1999

**Amser:** 9.00-12.30

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgor 1, Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Yn bresennol:**

**Aelodau** (Etholaeth)

Val Feld (Cadeirydd) Dwyrain Abertawe

Rhodri Morgan (Ysgrifennydd y Cynulliad) Gorllewin Caerdydd

Alun Cairns De Orllewin Cymru

Ron Davies Caerffili

Michael German De Ddwyrain Cymru

Brian Hancock (aelod o Bwyllgor Llywodraeth Islwyn

Leol a'r Amgylchedd hefyd)

Ann Jones Dyffryn Clwyd

Helen Mary Jones Llanelli

Phil Williams De Ddwyrain Cymru

**Aelodau o Bwyllgor Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd (eitem 2)**

Sue Essex (Cadeirydd) Gogledd Caerdydd

Peter Law (Ysgrifennydd y Cynulliad) Blaenau Gwent

Janice Gregory Ogwr

Janet Ryder Gogledd Cymru

**Swyddogion** (Adran)

Derek Jones
Uwch
Gyfarwyddwr,
Materion
Economaidd

Michael Cochlin (eitem 6) Cyfarwyddwr, Grðp Datblygu Economaidd

Steven Phillips (eitem 2) Pennaeth, Uned Datblygu Rhanbarthol

**Cyfranwyr allanol**

Michael Boyce Prif Weithredwr, Corfforaeth Ddatblygu Bae Caerdydd

Roger Thomas Rheolwr Cyffredinol Cymru,

Asiantaeth yr Amgylchedd

**Ysgrifenyddiaeth**

Helen Usher Clerc

Martin Stevenson (Eitem 2) Clerc

Joanne Glenn Dirprwy Glerc

Joanna Trott Dirprwy Glerc

**Eitem 1: Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod, yn arbennig aelodau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd a oedd yn bresennol ar gyfer y sesiwn ar y cyd i drafod Bae Caerdydd. Esboniodd fod y Pwyllgor Datblygu Economaidd wedi bwriadu trafod y broses o ddirwyn y Gorfforaeth i ben yn ystod y cyfarfod hwn, ond wedi ystyried y digwyddiadau diweddar, penderfynwyd y byddai'n ddefnyddiol archwilio'r trafferthion diweddar ynghylch systemau gweithredu'r morglawdd er mwyn dysgu gwersi a fyddai'n ddefnyddiol i ddyfodol ardal y Bae yn y tymor hir.

1.2 Croesawyd Michael Boyce o Gorfforaeth Ddatblygu Bae Caerdydd a Roger Thomas o Asiantaeth yr Amgylchedd. Estynnwyd gwahoddiad i Gyngor Dinas Caerdydd yn wreiddiol, ond o ganlyniad i'r newid ym mhwyslais trafodaethau'r cyfarfod, byddai'r Cyngor yn bresennol mewn cyfarfod diweddarach pan fyddai’r broses o ddirwyn y Gorfforaeth i ben a datblygiad yr ardal yn y dyfodol yn cael ei drafod. Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau mai nod y sesiwn ar y cyd oedd ceisio dysgu gwersi a fyddai'n ddefnyddiol i gyrff a fyddai'n gyfrifol am redeg y morglawdd yn y dyfodol, yn hytrach na beirniadu'r digwyddiadau diweddar.

1.3 Atgoffwyd pawb fod croeso iddynt siarad yn Gymraeg neu Saesneg.

**Eitem 2: Corfforaeth Ddatblygu Bae Caerdydd**

*Datganiad o Ddiddordeb* – dywedodd Helen Mary Jones fod ganddi dþ yn Canton

2.1 Dywedodd Ysgrifennydd y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd fod y gwahaniaeth barn annisgwyl diweddar rhwng y ddau gorff sy'n gysylltiedig â'r Morglawdd wedi digwydd ar yr un pryd â thrafodaethau rhwng y Gweithgor, Cyngor Sir Caerdydd a'r Gorfforaeth ynglþn â rheoli'r broses garthu rhwng yn awr ac 1 Ebrill. Roedd hi wedi bod yn anodd i'r cyfryngau geisio ystyried y ddau ddigwyddiad yma ar wahân.

2.2 Gan gyflwyno'r papur ynglþn â dirwyn y Gorfforaeth i ben, dywedodd Steven Phillips fod y papur yn ceisio rhoi braslun o'r sefyllfa ar hyn o bryd. Roedd naw deg pump y cant o'r gwaith angenrheidiol i drosglwyddo rheolaeth dros ardal y Bae wedi cael ei wneud. Y bwriad oedd gweithredu'r holl gytundebau adran 165 erbyn canol mis Ionawr a byddai hyn yn cael ei ddilyn gan y Gorchymyn i ddirwyn y Gorfforaeth i ben.

2.3 Yn ystod y drafodaeth mynegwyd y pwyntiau canlynol:

- Mynegwyd ychydig bryder ynglþn â'r ffaith nad oedd y penderfyniad i drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros garthu, ocsigeniad, rheoli a gweithredu yn uniongyrchol i Gyngor Dinas Caerdydd wedi dod gerbron y Pwyllgor. Esboniodd Ysgrifennydd y Cynulliad fod y Cyngor (fel y corff olynol) wedi cynnig ateb rhatach. Roeddent wedi cynnig gohirio corlannu'r dðr croyw fel na byddai penderfyniad pwysig yn cael ei wneud ar frys. Teimlai'r Cyngor nad y bad *bubbler* a awgrymwyd gan y Gorfforaeth oedd yr ateb gorau na'r ateb rhataf. Roedd y Gweithgor wedi penderfynu peidio â rhoi caniatâd i'r Gorfforaeth ddyfarnu contract i Thames Water ond yn hytrach, rhoi'r cyfle i Gyngor Dinas Caerdydd gynnig cynllun gwell. Nid oedd unrhyw rwymedigaeth yn gysylltiedig ar gyfer y Cynulliad.

- Cadarnhawyd fod dychwelyd adfywiad y Bae i'r awdurdod unedol yn cadarnhau datblygiad strategol yr ardal.

- Roedd pryder os na fyddai Cyngor Dinas Caerdydd yn dod gerbron y Pwyllgor hyd mis Chwefror, y byddai'r cytundebau rhwng y Gorfforaeth a'r cyrff olynol yn cael eu harwyddo ac na fyddai'r Pwyllgor yn gallu edrych ar y cytundebau adran 165 yn fanwl. Cytunodd y Cadeirydd fod angen ystyried y cytundebau ymhellach ac awgrymodd gynnal sesiwn arall ar y cyd ym mis Ionawr. Byddai'r Pwyllgor yn derbyn papur yn amlinellu prif rannau'r cytundebau.

**[Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor]**

- Cwestiynwyd y ffaith bod y Gorchmynion i ddirwyn y Gorfforaeth i ben wedi cael eu dynodi fel 'gorchmynion lleol'. Roedd yr effaith yn ymestyn y tu hwnt i'r ardal leol. Dywedodd Ysgrifennydd y Cynulliad fod ei gynghorwyr cyfreithiol wedi ei hysbysu mai hwn oedd y dynodiad cywir, ond cytunodd fod goblygiadau ehangach. Cytunodd i'w ystyried ymhellach. **[Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad]**

2.4 Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Michael Boyce a Roger Thomas wneud eu cyflwyniadau ac amlinellu pa wersi ar gyfer y dyfodol y dylid eu dysgu o ddigwyddiadau diweddar.

**Roger Thomas, Asiantaeth yr Amgylchedd**

2.5 Dywedodd Mr Thomas mai prif bryder Asiantaeth yr Amgylchedd ar yr adeg yma o'r flwyddyn oedd gostwng y perygl o lifogydd. Yr Asiantaeth yw'r unig gorff rheoleiddio sydd â'r pŵer i ddylanwadu ar y ffordd y gweithredir y morglawdd. Erbyn hyn, roedd yn fodlon gyda'r trefniadau gweithredu amgen ar gyfer y morglawdd a fabwysiadwyd gan y Gorfforaeth. Gohiriwyd y Cyfarwyddyd i'r Gorfforaeth ddad-argáu'r llyn, a chyhoeddodd yr Asiantaeth ei chymeradwyaeth ar gyfer gweithredu'r morglawdd rhwng 1 Rhagfyr a 14 Ionawr. Siomedig fu sylw a roddwyd gan y wasg i’r digwyddiadau diweddar, ond erbyn hyn, roedd y ddau sefydliad yn deall swyddogaeth ei gilydd yn well ac wedi cytuno i gydweithio'n agos i ddatrys materion technegol yn y dyfodol.

2.6 Pwysleisiodd Mr Thomas fod Asiantaeth yr Amgylchedd wedi ymrwymo i sicrhau fod y Bae yn llwyddiant amgylcheddol. Roedd nifer o ddyfeisiadau technegol ar gael i gynorthwyo'r Asiantaeth i wella'r broses o fonitro ansawdd y dŵr, fel y byddent yn gallu gweithredu cyn i broblemau mawr godi.

**Michael Boyce, Corfforaeth Ddatblygu Bae Caerdydd**

2.7 Dywedodd Mr Boyce ei fod yn siomedig am y digwyddiadau diweddar a dywedodd fod y Gorfforaeth yn cydnabod ei bod yn rhannol gyfrifol am y problemau. Roedd y Gorfforaeth wedi ymrwymo i ddatblygu prosiect llwyddiannus ac er mwyn gwneud hyn, roedd angen sicrhau diogelwch y cyhoedd ac amgylchedd o safon uchel. Er i’r Morglawdd gael ei hargáu ar 4 Tachwedd, cynhaliwyd profion parhaus i ganfod unrhyw broblemau gyda systemau gweithredu'r Morglawdd. Gwnaethpwyd hyn nid yn unig i sicrhau fod y systemau’n gweithio, ond hefyd os oedd diffygion bod y contractwyr yn eu cywiro eu hunain gan dalu'r gost.

2.8 Roedd yr anghytundebau diweddar ynglŷn â'r Morglawdd wedi codi oherwydd gwahanol ddealltwriaethau o'r hyn a gytunwyd mewn cyfarfod ar 2 Rhagfyr. Arweiniodd hyn at y penderfyniad gan y Gorfforaeth ar 3 Rhagfyr i apelio yn erbyn Cyfarwyddyd Asiantaeth yr Amgylchedd i ddad-argáu’r llyn (ar ôl dod i'r casgliad nad oedd argyfwng) er mwyn eu galluogi i gael rhagor o amser i drafod y sefyllfa gydag Asiantaeth yr Amgylchedd. Teimlai'r Gorfforaeth y byddai draenio'r Bae tra'r oedd y trafodaethau'n parhau yn debygol o godi ofn ar breswylwyr a chwmnïau masnachol ac roedd o'r farn ei bod yn synhwyrol aros tan ar ôl y penwythnos. Yn anffodus, roedd hyn wedi bod yn drychinebus gan fod y cyfryngau wedi codi ofn ar bawb. Ar 6 Rhagfyr, cytunodd pawb ar ffordd ymlaen nad oedd yn golygu gorfod draenio'r Bae.

2.9 Sicrhaodd Mr Boyce y Pwyllgor fod trefniadau wedi cael eu rhoi mewn grym i sicrhau na fyddai'r sefyllfa hon yn codi eto. Roedd y Gorfforaeth yn awr yn cydweithio'n agos ag Asiantaeth yr Amgylchedd ac roedd y sefydliadau'n deall pwysigrwydd cydweithio er mwyn llwyddo.

**Trafodaeth**

2.10 Croesawodd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd agwedd gadarnhaol y Gorfforaeth ac Asiantaeth yr Amgylchedd, a dywedodd mai dyfodiad y Cynulliad oedd wedi golygu y gellid cynnal trafodaethau o'r fath yn gyhoeddus. Teimlai fod y sefyllfa yn dangos problem gyda'r ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â'r morglawdd (roedd hawl apelio yn erbyn Cyfarwyddyd), ac yn y dyfodol, byddai'n rhaid sicrhau fod unrhyw Gyfarwyddeb yn cael ei gweithredu'n syth. Dylai swyddogion sy'n llunio'r cytundebau rhwng y Gorfforaeth a'i holynwyr ddiddymu'r man gwan hwn. Byddai Asiantaeth yr Amgylchedd yn croesawu unrhyw ddeddfwriaeth a fyddai'n nodi cyfrifoldeb mewn ffordd fwy eglur a sicrhau y byddai unrhyw Gyfarwyddyd yn cael ei weithredu'n

fuan.

2.11 Mynegwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Dylai cytundebau yn y dyfodol ddatgan yn eglur pwy sydd â'r hawl terfynol i benderfynu os yw sefyllfa o argyfwng yn bodoli ac a ddylid cydymffurfio â Chyfarwyddyd yn syth. Dywedodd y Gorfforaeth y byddent yn cydymffurfio gydag unrhyw Gyfarwyddyd yn syth wrth gwrs, petaent yn credu bod unrhyw berygl o lifogydd.

- Ymgynghorwyd gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ynglþn â'r cytundebau rhwng y Gorfforaeth a'r cyrff olynol (fel rhan o grðp ehangach a oedd wedi cynnig cyngor ynglþn â materion yn ymwneud â dirwyn y Gorfforaeth i ben).

- Profwyd systemau wrth gefn yn llawn yn ystod y mis blaenorol ond nid oedd y Gorfforaeth wedi cael achos i'w defnyddio o ganlyniad i'r systemau yn methu. Nid oeddent byth wedi colli rheolaeth ar lefel y dðr.

- Byddai unrhyw ddiffygion a ddarganfuwyd yn ystod yr archwiliadau yn cael eu cywiro, a'r contractwyr fyddai'n talu am hyn, yn hytrach na'r trethdalwyr.

- Beirniadwyd y llwybr pysgod am ei fod yn aneffeithiol. Fodd bynnag, ni fyddai pysgod yn mudo am ychydig fisoedd, felly y gobaith oedd y byddai'r llwybr yn gweithio'n llawn pan fyddai ei angen.

- Dywedodd y Gorfforaeth nad oedd dylunwyr y meddalwedd a'r peirianwyr wedi cydweithio'n ddigon agos ac oherwydd hyn roedd y fflodiardau yn rhy sensitif. Roeddent wedi'u rhaglennu i ymateb bob tro yr oedd lefel y dðr yn newid cymaint â 10mm (ac erbyn i'r peiriannau ymateb, roedd y lefel wedi newid eto). Dywedodd rhai Aelodau ei bod yn ymddangos fod y broblem gyda'r fanyleb, roedd rhywun wedi penderfynu fod 10mm dros ardal y Bae yn arwyddocaol.

- Dywedodd nifer o Aelodau eu bod yn ei chael hi'n anodd cyfiawnhau'r gwariant ar Fae Caerdydd i'w hetholwyr. Roedd hon yn dasg anoddach fyth pan oedd hi'n ymddangos fod rhai problemau difrifol ar y Morglawdd er gwaetha'r buddsoddiad mawr.

**Crynodeb gan Gadeiryddion y Pwyllgor Datblygu Economaidd a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd**

- Diolchwyd i Michael Boyce a Roger Thomas am fynychu'r cyfarfod ac am eu hagwedd agored i'r drafodaeth. Gobeithiwyd na fyddai'r camddealltwriaethau a achosodd y broblem ddiweddar yn digwydd eto.

- Gan gofio'r arian a fuddsoddwyd yn y Morglawdd, roedd pawb yn gobeithio'n fawr y byddai'n gweithio nid er mwyn Caerdydd yn unig, ond er mwyn Cymru gyfan hefyd.

- Rhaid i'r cynllun datblygu ystyried ansawdd a diogelwch y dðr oherwydd na fyddai unrhyw fuddsoddiad masnachol yn y Bae os oedd amheuon ynglþn â hyn.

- Dylai'r Pwyllgorau archwilio'r cytundebau a drosglwyddodd reolaeth dros y Morglawdd i'r cyrff olynol.

Roedd hi'n bwysig i'r cytundebau hyn osgoi unrhyw amwysedd ynglþn â'r angen i gydymffurfio gydag unrhyw Gyfarwyddyd yn y dyfodol i ddad-argáu'r llyn. Hefyd, roedd hi'n bwysig egluro unrhyw gyfrifoldebau yn y dyfodol pe byddai unrhyw broblemau pellach yn codi gyda'r Morglawdd. Dylai'r ddau Bwyllgor gynnal cyfarfod arall ar y cyd ym mis Ionawr i edrych ar gynnwys y cytundebau cyn eu harwyddo. Dylid ystyried gwahodd y WDA a Chyngor Sir Caerdydd hefyd. **[Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor]**

- Roedd hi'n hanfodol egluro fod y cyfrifoldeb dros faterion yn ymwneud â diogelwch yn perthyn i Asiantaeth yr Amgylchedd, fel y corff rheoleiddio, a'i fod yn uniongyrchol atebol i'r Cynulliad ar gyfer y materion hyn.

**Eitem 3: Cofnodion cyfarfod 1 Rhagfyr**

3.1 Paragraff 5.6 i'w ddiwygio o 'Nododd Helen Mary Jones yn swyddogol ' i 'Nododd aelodau Plaid Cymru yn swyddogol' **[Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor]**

3.2 Paragraff 4.2, 2il bwynt bwled i gynnwys **[Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor]** ar ddiwedd y frawddeg. **[Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor]**

**3.3 Materion yn codi**

- Dylai'r amser i gyflawni'r pwynt gweithredu olaf ond un dan eitem 5 (Targedau) fod 'erbyn y cyfarfod nesaf'.

- Eitem 7, ETAG. Nid oedd Tom Middlehurst yn gallu mynychu'r cyfarfod ar 15 Rhagfyr felly roedd y Cadeirydd wedi trefnu cynnal cyfarfod gydag Ysgrifennydd y Cynulliad, Tom Middlehurst a Chynog Dafis i drafod beth fyddai'n cael ei benderfynu yn y Sesiwn Lawn ar 26 Ionawr a sicrhau na fyddai'r cwestiynau a glustnodwyd gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd fel rhai sy'n codi pryder yn cael eu heffeithio gan y cynigion yn y papur i fynd gerbron y Sesiwn Lawn. Cytunodd i gysylltu ag aelodau'r Pwyllgor cyn diwedd yr wythnos i'w hysbysu o gynnwys ei thrafodaethau. **[Gweithredu: Cadeirydd]** Bu trafodaeth sylweddol ynglþn â'r amser a dreuliwyd ar ETAG. Cytunwyd o'r blaen gynnal cyfarfod ar y cyd gyda'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16, ond nid oedd hyn wedi digwydd. Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau fod ETAG wedi bod ar yr agenda yn flaenorol ond bod Aelodau wedi penderfynu canolbwyntio eu hamser prin ar ystyried materion yn ymwneud â chronfeydd strwythurol. Roedd aelodau wedi derbyn gwahoddiad hefyd i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16. Dywedodd Ysgrifennydd y Cynulliad fod y Pwyllgor Ôl-16 yn fodlon i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd arwain y drafodaeth ynglþn â'r swyddogaeth fenter. Roedd gan y ddau bwyllgor ddiddordeb yn strwythur y cynghorau rhanbarthol ac roedd angen iddynt gytuno pa un ddylai arwain.

**Eitem 4: Adroddiad Ysgrifennydd y Cynulliad**

*Datganiadau o Ddiddordeb* – Datganodd Mike German ddiddordeb yn Hyder gan fod ei ferch yn gweithio i'r cwmni.

4.1 Nid oedd y cyhoeddiad fod 1,000 bobl yn colli eu swyddi o fewn Hyder yn newyddion newydd gan fod y cwmni wedi cyhoeddi ar ddechrau'r flwyddyn y byddai 350 yn colli eu swyddi, a 650 yn yr haf. Cynlluniwyd y rhain i blesio dadansoddwyr y ddinas. Ni fu'r gostyngiadau mewn prisiau a orfodwyd gan y rheolydd mor llym â'r disgwyl ac roedd rhai wedi gobeithio y byddai'n bosibl arbed rhai swyddi. Byddai cytundeb Hyder i gynnal gwaith amgylcheddol ychwanegol yn gorfod cael ei ohirio o ganlyniad i gwymp mewn elw. Cytunodd yr Aelodau nad oeddent am weld pobl yn colli eu swyddi a bygythiad ychwanegol i'r amgylchedd er mwyn diogelu elw. Dywedodd Ysgrifennydd y Cynulliad fod Hyder wedi gostwng eu difidend i gyfranddalwyr gymaint â 60% a'r bwriad oedd ei gynyddu'n raddol.

4.2 Soniodd y Cadeirydd am bryderon y Pwyllgor ynglþn â goblygiadau cyhoeddiad Hyder. Roedd Hyder yn bwysig i Gymru. Roedd yn gwmni o safon byd gyda swyddogaeth bwysig mewn datblygiadau cyhoeddus-preifat, gyda'r posibilrwydd o gynnwys buddsoddiad sector preifat o fewn Amcan 1. Cytunodd Ysgrifennydd y Cynulliad i gynnal trafodaethau anffurfiol gyda Hyder i bwysleisio pwysigrwydd cadw rheolaeth dros y cwmni yng Nghymru, a'u swyddogaeth mewn datblygiadau cyhoeddus preifat, ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor ym mis Ionawr. **[Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad].**

4.3 Hefyd, byddai pobl yn colli swyddi oherwydd bod Brown Lennox ym Mhontypridd yn cau.

4.4 Roedd Britax Rumbold yn bwriadu creu 450 o swyddi newydd yng Nghwmbran ac roedd hyn yn cyfrannu at dwf y sector awyrofodol yn ne Cymru.

4.5 Roedd y DTI wedi diddymu cynlluniau i ddarparu glo caled o Tsieina yn hytrach na glo caled o Gymru i wragedd gweddw a glowyr wedi ymddeol yng Nghymru. Roedd hyn yn newyddion da.

**Eitem 5: Y Diweddaraf ynglþn â Chronfeydd Strwythurol**

5.1 Gwnaeth Michael Cochlin gyflwyniad ar lafar i'r Pwyllgor.

5.2 Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y bartneriaeth o Gymru a'r Comisiwn Ewropeaidd ar 14 Rhagfyr. Roedd cyfarfodydd tebyg gyda'r Comisiwn yn cael eu cynnal mewn rhanbarthau Amcan 1 eraill. Roedd amserlen fras wedi cael ei llunio. Disgwyliwyd ymateb ysgrifenedig ffurfiol y Comisiwn i'r SPD erbyn tua diwedd Ionawr. Y bwriad oedd cynnal cyfarfod arall gyda'r bartneriaeth ym mis Chwefror. Roedd y Comisiwn dal i obeithio y byddai cytundeb terfynol ynglþn â'r SPD yn bosibl erbyn diwedd mis Mawrth, er nad oedd modd sicrhau hyn ar hyn o bryd. Roedd yr amserlen yn golygu y byddai angen cynnal trafodaethau technegol ar lefel waith yn ystod y ddau fis nesaf er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud.

5.3 Ynglþn â'r cynnwys, roedd yr SPD wedi cael ei dderbyn yn ffurfiol gan y Comisiwn, felly nid oedd ganddo unrhyw wrthwynebiadau sylfaenol iddo.

- roedd y cynigion yn ymwneud ag adnoddau dynol/Cronfa Gymdeithasol wedi cael derbyniad da;
- roedd gan y Comisiwn bryderon ynglþn â datblygu gwledig. Ni ddylid rhannu'r SPD yn ardaloedd gwledig

ac ardaloedd nad ydynt yn wledig, ond roedd angen cynrychiolaeth gryfach i faterion gwledig yn y Cynllun ac integreiddio gwell rhwng y Cynllun a Chynllun Datblygu Gwledig Cymru. Roedd cwestiwn targedau a dangosyddion ar gyfer ardaloedd gwledig hefyd wedi cael ei godi. Roedd cefnogaeth ar gyfer gosod gweithgaredd grðp LEADER mewn perthynas â chymunedau gwledig, yn y brif ffrwd;

- nid oedd y Comisiwn yn hapus gyda'r ffordd yr ymdriniwyd â thwristiaeth wrth ystyried ei phwysigrwydd i'r rhan fwyaf o'r ardal Amcan 1. Ni ddynodwyd twristiaeth fel maes Blaenoriaeth – ac fe'i hamlinellwyd mewn perthynas ag isadeiledd yn unig. Nid oedd hyn yn foddhaol ac roedd y Comisiwn wedi dadlau dros gamau gweithredu yng nghyd-destun strategaeth dwristiaeth y dylid ei chynnwys yn yr SPD;

- byddai'r Comisiwn yn dymuno ystyried pob un o brif elfennau'r strategaeth ac olrhain y cyswllt rhwng y problemau a glustnodwyd yn y ddogfen, yr atebion angenrheidiol, blaenoriaethu camau gweithredu a'r targedau a'r dangosyddion a allai gynorthwyo i gynnal a monitro'r rhaglen;

- roedd yn anochel y byddai'r tablau ariannol yn cael eu hastudio'n fanwl, er mwyn cytuno ar y proffiliau ariannol a nodir gan y Comisiwn a dosbarthiad ariannu punt am bunt rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat;

- byddai'r Comisiwn yn dymuno deall y broses weithredu a'r strwythurau gweithredu hefyd.

5.4 O ran materion eraill, dywedodd Michael Cochlin fod llawer o'r gwaith i ffurfio pecynnau ar gyfer Amcan 1 wedi dechrau eisoes. Roedd y ffocws uniongyrchol ar becynnau sy'n berthnasol i'r holl Raglen gan y gallai'r rhain ddylanwadu ar y ffordd y byddai partneriaethau lleol a rhanbarthol yn gweithredu. Roedd yr astudiaethau cyfredol yn cynnwys y portffolio busnes (a gyd-drefnwyd gan y WDA): datblygu cymunedol ac adeiladu ar allu cymunedau (WCVA gydag amrywiaeth o bartneriaid gwirfoddol ac eraill); mesurau cyflogaeth (gan gynnwys y Gwasanaeth Cyflogaeth); a datblygiad adnoddau dynol (Addysg Bellach ac Uwch a'r TECs). Roedd twristiaeth yn cael ei thrafod hefyd.

5.5 Byddai cydnabod "cyrff atebol" i reoli pecynnau yn rhan bwysig o'r broses a byddai'n rhaid mabwysiadu canllawiau manwl. Roedd Mr Rheon Tomos, Cyfarwyddwr Deloitte and Touche, ac ar secondiad i'r Cynulliad, yn gweithio ar ganllawiau, yn enwedig ynglþn â'r perthnasau ariannol. Byddai Mr Roger Thomas, ar secondiad o Eversheds, yn ystyried pecynnau busnes er mwyn sicrhau'r mynediad syml ac uniongyrchol ar gyfer busnesau bychain a chanolig a argymhellwyd.

5.6 O fis Ionawr, cynigiwyd cyfarfodydd gyda phob un o'r awdurdodau lleol a'u partneriaid lleol i roddi cyfarwyddyd iddynt a chyfnewid safbwyntiau ynglþn â'r syniadau a'r cynigion sy'n cael eu datblygu. Byddai hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth i'r Cynulliad o'r gwaith sy'n mynd ymlaen yn lleol a byddai'n cyfrannu at yr ystyriaeth o'r cyswllt rhwng pecynnau lleol a chenedlaethol.

5.7 Roedd yr Aelodau wedi gweld y llythyr oedd wedi cael ei anfon at y bartneriaeth yng Nghymru am ffurfio Pwyllgor Monitro wrth gefn. (EDC-12-99(p.9W)). Roedd y bartneriaeth wedi derbyn gwahoddiad hefyd i gynnig unrhyw sylwadau cyffredinol ynglþn ag aelodaeth. Nid oedd y broses yn syml. Yn y drafodaeth a gynhaliwyd y diwrnod cynt gyda'r bartneriaeth a'r Comisiwn, mynegwyd y farn y dylai'r cyrff amgylcheddol statudol gael eu cynrychioli gan gofio'r pwyslais yn y Rheoliadau ac yn yr SPD ar ddatblygu cynaliadwy. Mynegwyd pryderon ynglþn â chynrychiolaeth gan y Bwrdd Croeso hefyd. Byddai angen mwy o gynrychiolaeth gan grwpiau eraill ar y Pwyllgor Monitro pe bai'r cyrff hyn a ariennir gan y Llywodraeth yn cael eu cynnwys hefyd (er mwyn cadw'r

cydbwysedd). Dywedodd Aelodau'r Pwyllgor eu bod am gael clywed unrhyw sylwadau ynglþn â'r llythyr. **[Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor]**

5.8 Roedd dros 60 wedi dangos diddordeb yn swydd y prif Weithredwr hyd yn hyn. Byddai'r ceisiadau'n cael eu didoli yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd, a byddai'r cyfweliadau'n cael eu cynnal ym mis Ionawr. Byddai'r panel cyfweld yn cynnwys cynrychiolydd o Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil, y Cynulliad a rhywun annibynnol. Roedd y posibilrwydd y gallai'r bartneriaeth ddarparu'r unigolyn annibynnol hwn neu hon yn cael ei ystyried.

5.9 Yn olaf, gan ystyried pryderon y Pwyllgor ynglþn â chyhoeddusrwydd, cynigiwyd y dylid cyhoeddi taflen yn gynnar yn y flwyddyn newydd yn nodi'r datblygiadau hyd yn hyn gan hysbysu pobl am y cyrff y gellir cael gwybodaeth neu ganllawiau pellach oddi wrthynt. Byddai aelodau'r Pwyllgor yn cael y cyfle i gynnig sylwadau ar y drafft.

**Trafodaeth**

5.10 Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, mynegwyd y pwyntiau canlynol:

- Croesawodd y Pwyllgor y cynigion i gynhyrchu taflen. Esboniodd Mr Cochlin fod 30,000 o daflenni'n cael eu hargraffu a byddent yn cael eu dosbarthu i amrywiaeth eang o sefydliadau gan gynnwys awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol. Byddai'r daflen yn cynnwys rhif i'w ffonio gydag unrhyw ymholiadau hefyd (rhyw fath o 'linell gymorth brys'). Roedd y cwestiwn o sefydlu safle ar y we a defnyddio'r cyfryngau'n gyffredinol yn cael ei ystyried hefyd.

- Roedd y Pwyllgor yn falch fod ei argymhelliadau o ran aelodaeth y Pwyllgor Monitro wedi cael eu mabwysiadu. Fodd bynnag, roedd yr aelodau'n pryderu nad oedd Bwrdd Croeso Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd nac asiantaethau eraill sydd â chyfrifoldebau sy'n croestorri megis y Comisiwn Cyfleoedd Cyfartal wedi cael eu cynrychioli. Adroddodd Derek Jones fod y Cyngor Cefn Gwlad yn pryderu am y diffyg cynrychiolaeth hefyd. Cydnabuwyd y byddai eu cynnwys yn tarfu ar y patrwm 1/3:1/3:1/3 y seiliwyd yr aelodaeth arno'n wreiddiol. Cytunodd Ysgrifennydd y Cynulliad i edrych ar ffyrdd eraill o gynnwys y diddordebau hyn, gan gynnwys awgrym y Pwyllgor y dylid eu cynnwys yn yr Ysgrifenyddiaeth fel cynghorwyr, ar sail barhaol. **[Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad]**

- Gofynnid am gyngor ynglþn â phenodiadau i'r Pwyllgor Monitro i'r Aelodau a enwebwyd gan y Pwyllgor ar gyfer y broses penodiadau cyhoeddus.

- O ran y gynrychiolaeth 1/3:1/3:1/3, mynegwyd pryder nad oedd y trefniant hwn yn cael ei weithredu ar lefel leol a rhanbarthol. Roedd disgwyl y byddai cyfraniad ar lefel awdurdod lleol yn adlewyrchu'r gymhareb hon, ond roedd y sector gwirfoddol yn arbennig wedi gofyn am gyngor manwl ynglþn â sut i'w weithredu. Cytunodd Ysgrifennydd y Cynulliad i ysgrifennu at awdurdodau lleol a chyrff eraill sy'n arwain pecynnau cenedlaethol a chynnig cyfarwyddyd eglur ar y mater hwn. **[Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad]**

- O ran gwerthuso a monitro, roedd y Comisiwn wedi mynegi pryder fod yn rhaid gwahanu'r ddau faes. Roedd y posibilrwydd o brynu cyngor i mewn yn cael ei ystyried. Byddai Ysgrifennydd y Cynulliad yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ynglþn â chynigion mwy manwl ar gyfer gwerthuso. **[Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad]**

- Mynegwyd pryder ynglþn a'r amser a glustnodwyd ar gyfer penodi Prif Weithredwr. Pe byddai unigolyn yn cael ei benodi ym mis Ionawr, efallai na fyddai ef neu hi'n dechrau yn y swydd cyn mis Ebrill. Sicrhawyd yr Aelodau fod y mater yn cael ei drin cyn gynted ag y bo modd ac nad oedd cynnydd y Gweithgor newydd yn cael ei rwystro oherwydd absenoldeb ei Brif Weithredwr.

- Roedd aelodau'n pryderu nad oedd llawer o gynnydd wedi cael ei wneud ar bartneriaethau lleol. Roedd angen paratoi canllawiau ynglþn â chyfraniad grwpiau ar lefel leol. Ar hyn o bryd, roedd y Comisiwn yn edrych ar y cwestiwn o ddefnyddio arian i dalu am gymorth technegol, a disgwyliwyd derbyn cyngor cyn bo hir. Yna byddai cymorth i grwpiau lleol yn cael ei ystyried ymhellach.

- Ar y cyfan, roedd y Comisiwn yn fodlon gyda'r agwedd a fabwysiadwyd tuag at gyfleoedd cyfartal.

**Crynodeb y Cadeirydd**

11. Gan grynhoi, mynegwyd y pwyntiau canlynol gan y Cadeirydd:

- Roedd hi'n falch fod argymhellion y Pwyllgor ynglþn ag aelodaeth o'r Pwyllgor Monitro wedi cael eu mabwysiadu.

- Croesawodd y cynnig i gyhoeddi taflen ynglþn â'r cronfeydd strwythurol.

- Croesawodd y cytundeb i edrych ar ffyrdd eraill o gynnwys cynrychiolwyr o faes twristiaeth, yr amgylchedd, cyfleoedd cyfartal ac asiantaethau eraill gyda chyfrifoldebau sy'n croestorri yng ngwaith y Pwyllgor Monitro, gan gynnwys awgrym y Pwyllgor y dylid eu cynnwys yn yr Ysgrifenyddiaeth fel cynghorwyr parhaol.

- Roedd angen gwneud penderfyniadau ynglþn â swyddogaeth cyrff atebol a chynnwys y pecynnau cyn gynted ag y bo modd.

**Eitem 6: Ystyried Cyllideb y Cynulliad**

6.1 Rhoddodd Ysgrifennydd y Cynulliad gyflwyniad byr i'r eitem, gan dynnu sylw'r aelodau at baragraff 16 ar y papur (adennill RSA).

6.2 Mynegwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cadarnhawyd nad oedd unrhyw reswm, mewn egwyddor, pam na ddylid defnyddio hyblygrwydd ar ddiwedd blwyddyn i dalu am unrhyw alw annisgwyl ar Amcan 1.

- Roedd consensws y dylai'r Pwyllgor ddychwelyd at gwestiwn y gyllideb Pathway to Prosperity ym mis Ionawr (i ystyried a ellid cyfeirio ychydig o'r arian na ddosbarthwyd eisoes at feysydd megis yr economi gymdeithasol, datblygu busnes, TGC ac ati) a'r llinell Cronfeydd Adfywio. Nodwyd yr angen i edrych ar gadwyni cyflenwi yn fwy manwl hefyd. **[Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Cynulliad]**

- Cytunodd Ysgrifennydd y Cynulliad ystyried cynnwys cyfeiriad at grantiau ar gyfer mannau bwyta yn y

cyfarwyddyd strategol a ddosbarthwyd i Fwrdd Croeso Cymru **[Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad]**

- Cydnabuwyd gwerth cyfraniad yr Ymddiriedolaethau Groundwork a theimlwyd y dylai arian fod ar gael i gynorthwyo eu cynlluniau ehangu os oedd modd.

**Eitem 7: Cefnogaeth a Datblygiad Busnesau**

7.1 Bu trafodaeth fer ynglþn â'r cynigion a daethpwyd i'r casgliadau canlynol:

- Ar y cyfan, roedd yr aelodau'n fodlon â chyfrifoldeb arfaethedig yr arolwg.
- Cytunodd yr Aelodau benodi cynghorwr allanol, a ddylai feddu ar brofiad o fyd busnes.
- Roedd yr aelodau'n fodlon mynychu cyfarfodydd briffio bob dydd Iau. Gofynnodd un aelod a fyddai'n bosibl cynnal y rhain yn y bore. Byddai aelodau'n cael eu holi am eu barn ynghylch amser cynnal y cyfarfodydd hyn y tu allan i'r Pwyllgor. **[Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor]**